# Mentor – dechrau arni.

**Croeso cynnes i chi i'r Bartneriaeth TAR yn y Brifysgol Agored yng Nghymru. Diolch am gytuno i fentora un o'n myfyrwyr. Isod, rydym wedi amlinellu rhywfaint o wybodaeth allweddol a ddylai eich cefnogi i ddechrau ar eich rôl.**

### Gwefan y Bartneriaeth

Gellir gweld gwefan y Bartneriaeth yma: Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored | Y Brifysgol Agored yng Nghymru (open.ac.uk) Yma cewch wybodaeth am y cwrs TAR. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd peth amser i ymgyfarwyddo â'r wefan. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth allweddol isod o dan yr adran **adnoddau a hyfforddiant ysgolion partner**.

### Disgrifiad Swydd Mentor

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfrifoldebau rôl Mentor gyda'r Bartneriaeth TAR.

### Canllaw i Ymarfer Dysgu

Mae'r holl wybodaeth sydd ei angen arnoch am brofiad ymarfer dysgu eich myfyriwr yn y Canllaw i Ymarfer Dysgu.

### Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol

Mae'r rhestrau gwirio hyn yn nodi dyddiadau allweddol modiwlau h.y. digwyddiadau datblygu, dyddiadau cwblhau dogfennau ac adolygu, dyddiadau cyflwyno aseiniadau ac ati. Mae un ar wahân ar gyfer Blwyddyn 1 (TAR 1 a 2) a Blwyddyn 2 (TAR3).

### Ffurflenni

Fel rhan o'ch rôl, bydd angen i chi gwblhau'r ffurflenni canlynol:

- Ffurflen arsylwi gwersi
- Ffurflen Adolygu Ymarfer
- Adroddiad Ymarfer Dysgu

Gellir dod o hyd i'r rhain ar wefan y Bartneriaeth a nodir dyddiadau ar gyfer eu cwblhau yn y rhestrau gwirio dyddiadau allweddol. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am yr hyn y mae'r rhain yn ymwneud ag ef yn y Canllaw i Ymarfer Dysgu. **Nodwch y nifer gofynnol o bob un ar gyfer Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.**

**Digwyddiad Briffio**

Rydym yn eich croesawu i'n digwyddiad briffio Mentoriaid ar **Fedi 25ain rhwng 1yp a 3yp.** I fynychu, bydd angen i chi gofrestru yma: [Hyfforddiant: Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored (office.com)] *Bydd y ddolen i'r digwyddiad yn cael ei hanfon yn agosach at y dyddiad.* Sylwer, bydd dau gyflwyniad ar wahân - un drwy gyfrwng y Gymraeg ac un yn Saesneg. Bydd y ddau grŵp yn ail-ymuno ar gyfer y sesiwn holi ac ateb.

**Cefnogaeth Ymarfer Dysgu Wythnosol**

Mae sesiwn cymorth ymarfer dysgu wythnosol wedi'i threfnu ar gyfer **pob dydd Llun rhwng 3.45yp a 4.15yp.** Mae'r rhain yn sesiynau 'galw heibio' dewisol lle rydym yn eich annog i fynychu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon. Gellir dod o hyd i'r ddolen i'r sesiwn ar wefan y Bartneriaeth.

# Datblygiad Proffesiynol

**Mat Mentor**

Mae'r matiau hyn i gefnogi a strwythuro sesiynau mentora gyda'ch myfyriwr, ac ynghyd â'r Ffurflen Adolygu Ymarfer, i ddal cynnydd y myfyriwr. Gall cofnodion eich cyfarfodydd Mentor fod yn eich fformat o ddewis (e.e., llyfr nodiadau, dyddlyfr, log gweithredu treigl) a dylent gofnodi pwyntiau allweddol i'w trafod.

**Modiwl OpenLearn Meddylfryd Mentora**

Disgwylir i Fentoriaid gwblhau'r modiwl ar-lein rhad ac am ddim hwn yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs TAR. Mae'r modiwl yn cefnogi unrhyw un sydd wedi'i leoli mewn lleoliad addysg i ddatblygu dealltwriaeth o fentora athrawon dechreuwyr yn effeithiol yn yr addysg gychwynnol i athrawon a chyfnodau newydd gymhwyso. Mae dolen ar wefan y Bartneriaeth.

**Canllaw i Fentora**

Mae'r canllaw hwn yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol fel Mentor trwy amlinellu rhywfaint o'r theori sy'n sail i fentora effeithiol.

**Bydd eich Cydlynydd Ysgol yn gallu eich cefnogi yn y lle cyntaf. Sicrhewch fod eich myfyriwr wedi rhannu manylion cyswllt y Tiwtor Cwricwlwm (TC) gyda chi ac mae croeso i chi gysylltu â'r TC os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.**